



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Y diweddraf am yr asesiad poblogaeth

Hydref 2017 (Rhifyn 11)

Dewch i Ddweud eich Dweud!

Diolch i bawb sydd wedi anfon adborth atom hyd yma ar gynllun rhanbarthol yr asesiad poblogaeth.

Os nad ydych wedi'i weld eto, mae cyfle o hyd i chi gael dweud eich dweud. Mae'r ymgynghoriad ar agor tan 31 Hydref 2017:

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/cynllun-rhanbarthol



Gweld y gwahaniaeth...

Mae'r bennod ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y cynllun rhanbarthol yn wahanol i eraill. Mae hyn oherwydd ein bod yn gweithio ar strategaeth ranbarthol ar wahân o dan Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Deddf 2015.

Bydd y strategaeth yn adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd yn yr asesiad poblogaeth ac mae gweithdai wedi dechrau i ddiweddaru'r wybodaeth a llenwi unrhyw fylchau. I ganfod mwy am y gwaith hwn, cysylltwch â Rhiannon Edwards rhiannon.edwards@flintshire.gov.uk

Sbotolau ar...

Drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol





Ymddiheuriadau am eich methu

Roeddem wedi ceisio ein gorau i gynnwys gymaint o bobl â phosib yn yr ymgynghoriad cyntaf ar yr asesiad poblogaeth. Fe wnaethom ni anfon holiaduron i bob cwr, trefnu gweithdai a gofyn i bob cyswllt a rhwydwaith yr oeddem yn gallu dod o hyd iddynt am wybodaeth.

Cafwyd ymateb gan gannoedd o bobl a helpodd dros 200 o bobl ni i ysgrifennu'r adroddiad ond nid oedd modd i ni ddal pawb. Dyma rywbeth y gallwn wneud yn well . Os ydych chi'n clywed am yr asesiad poblogaeth am y tro cyntaf ac mae gennych wybodaeth rydych yn tybio gall ein helpu, rhowch wybod os gwelwch yn dda. Rydym hefyd yn defnyddio ein gwefan i hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan sydd ar y gweill, felly dewch yn ôl yn rheolaidd i edrych: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Beth y gwnaethom ei ganfod

- Nid yw trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei adrodd yn ddigonol. Mae nifer y digwyddiadau a adroddwyd wedi codi dros y pum mlynedd diwethaf.
- Cyfanswm nifer y digwyddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn 2015-16 yng Ngogledd Cymru oedd tua 11,000.
- Nifer y troseddau rhywiol a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru oedd 1,400 yn ystod y cyfnod 2015-16.
- Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar ddynion a merched fel ei gilydd er bod merched yn fwy tueddol o'u profi.
- Dylai bod Gwasanaethau yn cyfri'r gwahanol anghenion sydd gan ddynion a merched.
- Mae achosion o reolaeth drwy orfodaeth nawr yn cael ei gofnodi yng Ngogledd Cymru ers i'r drosedd ddod i rym ym mis Rhagfyr 2015.
- Mae cam-drin domestig yn costio £66 miliwn y flwyddyn i wasanaethau yng Ngogledd Cymru mewn gofal ieuchyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, costau cyfreithiol a'r cynnyrch economaidd a gollwyd.
- Mae ymarfer mapio anghenion Cefnogi Pobl wedi adnabod 1,600 o bobl yng Ngogledd Cymru (92% merched, 8% dynion) gydag anghenion cefnogaeth sy'n gysylltiedig i gam-drin domestig.



Beth ddywedodd pobl wrthym ni...

- Coeliwch fy stori (dim ots pa mor afresymegol mae'n ymddangos)
- Cefnogwch fi a helpwch fi (a fy mhlant) i aros yn ddiogel
- Y troseddwr sy'n gyfrifol ac nid fi

Deddfwriaeth newydd

- Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- Creu trosedd newydd o'r enw Ymddygiad Cymhellol a Rheoli mewn Perthynas Agos neu Deuluol yn ddarostyngedig i adran 76 o'r Deddf Troseddau Difrifol
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Deddf Lles (Cymru) yn cyflwyno swyddogaethau newydd yn ymwneud â cham-drin domestig: diffiniad newydd o oedolyn mewn perygl; diogelu oedolion a gorchmynion cefnogi a byrddau diogelu oedolion; y ddyletswydd i holi ac adrodd lle mae gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod unigolyn yn oedolyn mewn perygl.

Beth rydym ni'n meddwl y dylai ddigwydd

- Datblygu cysylltiadau strategol ac ymarferol cryfach rhwng gwasanaethau cam-drin domestig a diogelu oedolion.
- Gwella cymorth i blant a phobl ifanc sy'n dyst i drais domestig a chamdriniaeth.
- Sicrhau bod dewisiadau digonol ar gyfer llety i ddioddefwyr trais domestig a chamdriniaeth gydag anghenion gofal a chefnogaeth ychwanegol sy'n golygu staffio 24 awr.
- Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ar eu blaenoriaethau o gam-drin domestig, caethwasiaeth modern a cham-drin rhywiol (yn cynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant).
- Canfod mwy am yr angen o gefnogaeth arbenigol, megis cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Ngogledd Cymru.
- Paratoi strategaeth ranbarthol o dan Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gwasanaethau sydd eu hangen

- Gwasanaethau arbenigol ymroddedig, lleol, i drais domestig, rhywiol a chamdriniaeth sy'n hygyrch gyda digonedd o adnoddau.
- Mynediad i loches ar gyfer pobl sy'n gorfod gadael eu cartref ar unwaith i ddianc rhag camdriniaeth neu drais, ac yna, symud ymlaen i ddatrysiadau tai a llety ar gyfer y tymor hir.
- Cefnogaeth gan gymheiriaid, cwnsela therapiwtig a chysiau adfer.
- Mynediad cyflym at gefnogaeth ariannol pan fo'r angen. Mae diffyg arian yn rheswm allweddol pam bod pobl yn aros gyda'u camdriniwr.
- Hyfforddiant arbenigol i bob gwasanaeth sy'n dod ar draws unigolion sydd wedi profi trais domestig a chamdriniaeth.
- Rhaglenni atal mewn ysgolion.
- Rhaglenni i'r troseddwyr.

Gwneud y cysylltiad rhwng diogelu a cham-drin domestig

Mae ymchwil yn dangos bod cyfran helaeth o oedolion sydd angen cefnogaeth diogelu yn derbyn hynny oherwydd eu bod yn profi cam-drin domestig. Mae cyswllt cryf rhwng cam-drin domestig a chamdriniaeth plant hefyd. Mae dod i gysylltiad â thrais domestig a chamdriniaeth yn gamdriniol i blant, er bod yr effaith mae hyn yn ei gael arnynt yn gallu amrywio.

Er bod gorgyffwrdd clir rhwng y gwaith i gefnogi'r sawl sy'n profi cam-drin domestig a'r gwaith i ddiogelu oedolion, mae'r ddau wedi datblygu fel meysydd proffesiynol ar wahân. Mae angen gwneud cysylltiadau strategol ac ymarferol rhwng y ddau agwedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud y mwyaf o gyfleoedd asesiad cyfun a chydweithio ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, a gwasanaethau cam-drin domestig.

Themâu

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Iechyd, anabledau corfforol ac amhariadau synhwyrdd
- Anabledau dysgu ac awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig, a thrais rhywiol
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr
- Pobl yn yr ystâd ddiogel

Rhagor o wybodaeth

Pecynnau asesu'r boblogaeth a chynllun ardal:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hub/hub-resource-sub-categories/cynllunio-a-hyrwyddo>

Cod Ymarfer Rhan 2:

<http://www.cgymru.org.uk/codau-ymarfer-ac-arweiniad-statudol/?force=2>

Canllaw cynllun ardal:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

Dewis Cymru (gwasanaethau ar gael i fodloni'r anghenion a nodir yn yr asesiad):

<https://www.dewis.cymru/>

Cysylltwch â ni

Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect
01824 712432

sarah.bartlett@sirddinbych.gov.uk

www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Cefndir i'r asesiad poblogaeth

Mae'r asesiad poblogaeth yn dwyn ynghyd wybodaeth am anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr yng ngogledd Cymru. Mae'n anelu at ddangos pa mor dda y mae anghenion pobl yn cael eu bodloni a'r gwasanaethau y byddwn eu hangen i'w diwallu yn y dyfodol. Fe wnaeth awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), a gefnogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, i lunio'r asesiad sy'n un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr asesiad poblogaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau am y gwasanaethau rydym angen eu darparu yng ngogledd Cymru i ddiwallu anghenion gofal a chefnogi pobl ac anghenion cefnogi gofalwyr. Bydd yn ein helpu i benderfynu lle i ddefnyddio ein hadnoddau, i ddiwallu gofynion eraill y ddeddf ac i ddylanwadu ar waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym wedi defnyddio pob math o dystiolaeth i adnabod beth sydd ei angen ac wedi gofyn i bobl beth maent yn ei feddwl sy'n bwysig, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chefnogi ar hyn o bryd, panel dinasyddion gogledd Cymru, a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau yn yr awdurdodau lleol, sectorau iechyd, preifat a gwirfoddol.

Nesaf, byddwn yn ysgrifennu cynllun ardal rhanbarthol gan nodi'r ystod a lefel o wasanaethau y mae'r cynghorau a byrddau iechyd lleol yn bwriadu eu darparu neu drefnu mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth. Mae'n rhaid cwblhau hwn erbyn 1 Ebrill 2018.

